




Rheoliadur graffen yw'r teneuaf eto

Sleid gan Neil Goalby. Ar gael yn rsc.li/4nB1eRy

Mae ymchwilwyr wedi datblygu'r mewnbaniad cardiaidd cyntaf wedi'i wneud o graffen. Mae'r mewnbaniad cardiaidd teneuaf yn gweithio fel rheoliadur confensiynol – yn synhwyro afreoleidd-dra yng nghuriad y galon ac yna'n darparu impylsau trydanol i adfer rhythm mwy rheolaidd y galon.

Mae gan graffen lawer o briodweddau defnyddiol ar gyfer y defnydd hwn. Mae graffen yn dargludo trydan. Gan mai carbon yw sail bywyd, mae'n fiogydnaws ac nid yw'n docsig. Mae mor denau nes ei fod yn dryloyw, ac mae hefyd yn bosibl ei fowldio i feinwe cyhyrau meddal, gwlyb a symudol y galon.



© 2023 Lin et al. Deunyddiau Uwch wedi'u cyhoeddi gan Wiley-VCH GmbH

Y tatŵ graffen yw'r rheoliadur teneuaf erioed

Cwestiynau

1. Rhowch ddau reswm pam mae graffen yn addas ar gyfer creu mewnbaniad cardiaidd.
2. Disgrifiwch adeiledd graffen.
3. Eglurwch sut mae graffen yn dargludo trydan.